# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 11 Mai, 2023
Yn Talybont, Rhydyclafdy (trwy garedigrwydd y Cynghorydd Catherine Hughes)

Presennol:

Cynghorwyr:

Wynne Davies
Nia M. Jones
Catherine Hughes
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Hughie Williams

Y Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Man cyfarfod mis nesaf

Cyn dechrau diolchodd y Cynghorydd Hughie Williams i'r Cynghorydd Catherine Hughes am gael cyfarfod yn ei chartref gan fod Tu Hwnt i'r Afon ar gau. Penderfynwyd y buasem yn cyfarfod yng Nghapel Ceidio y mis nesaf os y buasai swyddogion y Capel yn cytuno. Addawodd y Cynghorydd Nia M. Jones a'r Cynghorydd Wynne Davies y buasai un ohonynt yn holi os yw hyn yn bosib ac y buasent yn cysylltu â'r Clerc cyn y cyfarfod nesaf.

## 3. Cofnodion cyfarfod 13 Ebrill, 2023

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 13 Ebrill, 2023, yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Wedi derbyn llythyr o ddiolch gan bob un o'r cymdeithasau a dderbyniodd arian gennym mis diwethaf.

***5.*** **Dewis Swyddogion**

**Ethol Cadeirydd** – Yn ôl y drefn cynigiodd y Cynghorydd Hughie Williams ei ymddiswyddiad ond fe gynigiodd y Cynghorydd Catherine Hughes ei fod yn aros yn y gadair ac ategwyd hyn gan y Cynghorydd Tesni Jones, ac fe'i etholwyd yn ôl yn unfrydol.

**Is-gadeirydd -** Nid oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol ond penderfynwyd gofyn iddo os y buasai yn fodlon ymgymeryd â'r swydd eto. Y Cynghorydd Hughie Williams i gysylltu ag ef.

***6.*** **Derbyniwyd y canlynol yn gywir:-**

Rheoliadau Sefydlog
Rheoliadau Ariannol
Rheoliadau Mewnol
Polisi Ymateb i Gwynion
Asesiad Risg
Côd Ymddygiad

7. **Materion Cynllunio**

DIM

8. **Unrhyw un yn datgan diddordeb**

DIM

7. **Ymatebion i ohebiaeth**

Rhybudd cau ffordd dosbarth III ar 31.05.2023 ac hyd at 3 diwrnod - ger Capel Boduan – Cytunodd y Cynghorydd Phil Roberts i roi yr arwyddion i fyny gerllaw.

Cafwyd cais gan y Cynghorydd Jina Gwyrfai i roi pwysau ar Tai Teg i newid eu rheolau. Trafodwyd y cais ac fe gytunwyd yn llwyr i'w chefnogi ac y dylid cynnig newid i'r rheolau fel a ganlyn:-

Galw ar 'Tai Teg' a Chyngor Gwynedd i:-

(i) Ystwytho rheolau caeth Tai Teg i fod er lles pobl leol a llesiant cymunedau gwledig.
(ii) Newid eu rheolau fel eu bod yn ymdebygu i reolau'r cynllun arloesol 'Hunanadeiladu Cymru' ac yn ystyried ceisiadau adeiladu tai fforddiadwy gan ymgeiswyr sydd ag eiddo yn eu perchnogaeth.'

Y Clerc i ateb y Cynghorydd Jina Gwyrfai yn datgan ein bod yn ei chefnogi.

7. Materion Ariannol

Cysoniad banc o 4 Ebrill, 2023 i 3 Mai, 2023 wedi ei chael yn gywir yn y swm o £7585.27c.

Sylwyd bod praesept o £1875.00 wedi ei dderbyn ar ddiwedd Ebrill.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Tesni Jones a Phil Roberts ar ddiwedd y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Bacstal (hyd at 31.03.2023) | £134.10 | Siec Rhif 200723 |
| Cyllid a Thollau | £28.00 | Siec Rhif 200724 |
| Nerys Williams (Mis 2) | £111.79 | Siec Rhif 200725 |

**9. Unrhyw fater arall**

**Polisi Iaith** – Rhannodd y Cynghorydd Anwen Davies Bolisi Iaith er mwyn i bawb gael ei ddarllen a pasio os oedd yn dderbyniol ar gyfer Cyngor Buan. Addawodd y Clerc anfon copi ar e-bost i bawb gan adael amser i edrych drosto ac yna ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

***Materion Priffyrdd*** -

**Tan y Coed, Boduan** – Adroddwyd bod perchennog Tan y Coed wedi adeiladu dau biler uchel ym mynedfa ei dŷ a chodwyd pryderon y buasai hyn yn medru bod yn beryglus iawn gan nac ydyw yn medru gweld yn glir i'r ffordd fawr. Penderfynwyd anfon at yr Adran Priffyrdd i ddatgan ein pryderon.

Y Cynghorydd Anwen Davies am drafod y mater gyda'r swyddogion perthnasol hefyd.

**Diffib Capel Ceidio** – cafwyd e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn ddiweddar yn datgan bod y diffib sydd wedi ei leoli yng Nghapel Ceidio yn fflachio yn goch yn lle yr arferol gwyrdd. Aeth y Cynghorydd Hughie Williams i'w archwilio. Y Cynghorydd Wynne Davies a'r Cynghorydd Nia Jones am gadw llygaid arno o hyn ymlaen.

**Addurno pentrefi ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023** – Y Cynghorydd Tesni W. Jones am fynychu cyfarfod ynglŷn â hyn ac am ddod yn ôl atom gyda'r penderfyniadau y mis nesaf.

**Gliniadur newydd** - Y Cynghorydd Hughie Williams yn awgrymu y buasai'n ddoeth o beth i'r Cyngor gael gliniadur newydd gan nad yw'r un presennol yn gweithio fel y dylsai. Y Cynghorwyr yn cytuno â hyn ac yn rhoi caniatad i'r Clerc archebu un gyda'r swm o thua £500 mewn golwg.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 8, Mehefin 2023 am 7.30 p.m. Man cyfarfod i'w gadarnhau.